tafod elái

Nadolig 1995 | Pris 25c | Rhif 103

MYND O NERTH I NERTH

Dathlwyd degfed penblwydd Gŵyl Ddrama Tafod Elái mewn steil gyda 13 cwmni yn cymeryd rhan eleni. Am bedair noson ar ddiwedd mis Tachwedd roedd golygon actorion y fro a'u dilynwyr wedi troi tuag at Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdref. Yno cafwyd gwledd o hwyl a pherfformiadau amrywiol a graenus. Roedd y beirniad, Heddyr Gregory, wedi ei phlesio gyda safon uchel y cynhyrchiadau.

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd rhan yn arbennig y cwmniau a ddaeth i'r brig, ac i Angharad Devonald, Actores yr Ŵyl. Dymunwn ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r gweithgareddau ac i Colin Williams, Trefnydd yr Ŵyl am sicrhau fod gennym ŵyl i'w chofio.

Angharad Devonald, Actores yr Ŵyl Ddrama gyda Heddyr Gregory y Beirniad

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Celyn a thelyn a thân - ar aelwyd
A charoli diddan,
A'r hen fyd i gyd yn gân
O achos y Mab bychan.
Robert Owen.

BLWYDDYN NEWYDD GYMRAEG

Yn dilyn pwysau gan aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg mae swyddogion Maes Awyr Caerdydd yn y Rhŵs wedi cytuno i ail-ystyried eu polisi tuag at arwyddion dwyieithog. Nawr mae'r Gymdeithas am roi chwe mis i'r Maes Awyr i drafod gyda'r Bwrdd Croeso a gweithredu arwyddion dwyieithog.

Dim ond un o nifer o ddatblygiadau i sicrhau dyfodol yr iaith yw'r ymgyrch yn y Rhŵs. Yn dilyn trafodaethau gyda Menter Taf Elái mae Cwmni Tesco wedi syrthio ar eu bai ac am roi arwyddion dwyieithog yn eu gorsafoedd petrol newydd yn Nhonysguboriau a Gellihirion. Dros y misoedd nesaf fe welwn y Cynghorau newydd yn cyhoeddi cynlluniau gwasanaeth a chynlluniau i weithredu'r Ddeddf Iaith.

Ein braint ni yw cael defnyddio'r gwasanaethau newydd. Sicrhewch eich bod yn hawlio dogfennau Cymraeg gan y cyrff cyhoeddus ac oddi wrth y cwmniau masnachol megis BT, Nwy a Thrydan a'r Banciau.

Gwnewch 1996 yn flwyddyn o newid -' newid i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur posib.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
01222 890040

NEWYDDION LLEOL
Dilwen Davies 01443 223687
LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
HYSBYSEBION
David Knight 01222 891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 01222 842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
01222 890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 1af o Chwefror
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
14 Ionawr 1996

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF4 8TG
Ffôn: 01222 890040

Cyhoeddir **Tafod Elái** gan
y Bwrdd Golygyddol
gyda chefnogaeth ariannol
Cyngor Celfyddydau Cymru
a Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg

ARCHEBWCH
EICH COPI O
tafod elái
£2.50 AM Y
FLWYDDYN

Cymdeithasu

CLWB Y DWRLYN

Parti Nadolig am 5.00 pm a Chanu Carolau am 7.00 pm ar Nos Fercher, Rhagfyr 20ed.
Sgïo yn Alpe d'Huez, Rhagfyr 26 i Ionawr 2.
Manylion pellach: Colin Williams: 01222 890979.

CLWB Y BONT

Nos Wener, 1 Rhagfyr. Noson o Ddirgelwch - Mwrdwr yn y Clwb.

Nos Sadwrn, 2il Rhagfyr - Plethyn

Parti Nadolig, Nos Sadwrn, 16 Rhagfyr gyda Heather Jones.

MESEIA
Handel
Côr Godre'r Garth
ac Unawdwyr
7.00 pm Nos Sadwrn
9 Rhagfyr 1995
Eglwys Martin Sant
Caerffili
Tocynnau: £4
Ffôn: 01443 403674
Tuag at Eisteddfod yr Urdd
Islwyn 1997

CYD PONTYPRIDD
11 Rhagfyr - Parti Nadolig yng Nglwb y Bont.

CYMDEITHAS Y TON
22 Rhagfyr - Canu Carolau

CYMDEITHAS LLANTRISANT
Cinio Nadolig yn Farthings, Bontfaen ar Nos Wener, 15 Rhagfyr.

CWMNI THEATR GWYNEDD AR Y CYD Â
THEATR GORLLEWIN MORGANNWG

YN CYFLWYNO

Sothach a Sglyfath

Sioe antur gan Angharad Tomos
addasiad Mari Gwilym
Gyda Sara Harries Davies (Menna o Pobol y Cwm), Manon Eames Ioan Hefin, Huw Davies, Morgan Hopkin.

THEATR Y SHERMAN, CAERDYDD
16 - 20 Ionawr, 1996

16.1.96 - 2.00yp
17.1.96 - 10.00yb a 2.00yp
18.1.96 - 10.00yb a 2.00yp
19.1.96 - 10.00yb a 2.00yp
20.1.96 - 2.00yp

Tocynnau ar gael trwy ffonio 01222 230451

DYDDIADUR WYTHNOS YN NANT GWRTHEYRN

Daeth gwybodaeth i'r ysgol am gwrs Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn ac roedd pump ohonom ni o'r deg yn y dosbarth eisiau mynd yno. Rydw i bob amser yn chwilio am brofiadau newydd ac roedd y cyfle hwn i wella fy Nghymraeg yn apelio ata i'n fawr.

Roedd y cwrs i ddisgyblion y chweched ucha sy'n gwneud Cymraeg ail iaith lefel A. Daeth 27 ynghyd o wahanol ysgolion yn yr ardal a roedden ni'n rhannu un bws.

Roedd yr wythnos wedi dechrau ar y dydd Llun ond treulion ni ddiwrnod cyfan yn teithio. Cymerodd y daith tua chwech awr achos doedd dim trafforddo gwbl, dim ond llawer o ffyrdd troellog. Roedd hi'n ddiwrnod braf a felly roedd y golygfeydd yn ardderchog. Cyrhaeddon ni tua milltir tu allan i bentref Nant Gwrtheyrn i ddarganfod fod rhaid i ni newid bws i fynd lawr y ffordd serth gul. Penderfynodd rhai ohonon ni gerdded er mwyn ymarfer ein coesau.

Mae'n anodd i ddisgrifio'r olygfa. Roedd yn fendigedig a hardd iawn. Roedd Nant Gwrtheyrn yn gorwedd ar lan y môr ac mewn cwm ei hunan gyda'r mynyddoedd uchel o'i gwmpas. Roedd y tai yn hyfryd a chyfforddus iawn ac yn fuan roedden ni'n ymgartrefu am yr wythnos.

Roedd cyfle i sgwrsio gyda'r disgyblion eraill ar ôl te achos dim ond ni oedd yno a grwp bach o blant o ysgol gynradd Hirfaen.

DYDD MAWRTH

Diwrnod o farddoniaeth heddiw ac felly aethon ni i ble ysgrifennwyd y cerddi. Yn gyntaf aethon ni i'r Lôn Goed ac yno dan y "to plethedig" gwrandawon ni ar y gerdd "Eifionydd" gan R.Williams Parry. Roedden ni'n gallu cael naws y gerdd trwy fod yma.

Ymwelon ni â Rhyd-ddu, cartref T.H. Parry Williams, ac eisteddon ni yn iard yr ysgol ac yno darllenon ni ei soned enwog "Tŷ'r Ysgol". Ganllath o'r ysgol mae Llyn y Gadair ac yno astudion ni ei gerdd o'r un enw "Llyn y Gadair". Roedd yn brofiad arbennig i fedru uniaethu â'r bardd, a theimlais yn lwcus iawn i



gael y profiad hwn.

Roedd cwis yn y capel yn ystod y nos ac roedd yn gyfle da i gymysgu a chael hwyl. Am naw o'r gloch aethon ni nol i'n tai a sgwrsio gyda'n gilydd.

DYDD MERCHER

Yn y bore aethon ni o gwmpas y pentref ac am dro i'r goedwig ac i glywed tipyn bach o hanes y pentref gan Gareth Hughes. Adeiladwyd y pentref ar gyfer y gweithwyr yn y chwareli a dim on yn 1980 datblygodd y pentref i fod yn Ganolfan Iaith Gymraeg.

Aethon ni allan i Borthmadog i ginio ac yn y prynhawn ymwelon ni â chwarel lechi ym Mlaenau Ffestiniog. Roedd yn oer iawn dan y ddaear ond roedd y daith yn un gwerth chweil. Roedd llawer i weld ar yr wyneb hefyd. Roedd siopau bach yno wedi eu hail-greu fel roeddynt gynt. Os oeddech chi eisiau, gallech chi brynu hen arian yn y gyfnewidfa arian ac yna prynu losin a phethau gwahanol yn y siopau gan ddefnyddio'r hen arian.

DYDD IAU

Heddiw y Cyfryngau oedd thema'r dydd. Ond yn gyntaf yn y bore cyn brecwast aethon ni i'r traeth am dro. Cymerodd hi dim ond pum munud i gyrraedd y tywod ond pymtheg munud i ddringo nol lan y bryn

Yn y bws heddiw aethon ni ar draws Pont Britannia i Ynys Mon ac ymwelon ni â'r stiwdio ble mae'r gyfres newydd "Rownd a Rownd" yn cael ei ffilmio. Roedd y setiau yn ardderchog, ac yn realistig iawn yn enwedig y gwerthwr papurau newyddion ble roedd siocled ymhobman!

Arhoson ni yng Nghaernarfon am ddwy awr yn y prynhawn. Ymwelon ni â'r castell ac aethon ni i mewn i gwrdd a Richard Morris Jones. Cawson ni ddarlith ganddo ar y cyfryngau. Wrth gwrs roedd digon o amser i edrych o gwmpas y siopau ar ôl y sgwrs ac i brynu anrhegion i'n ffrindiau!

Y noson olaf heno ac roedden ni wedi bwriadu mynd i'r dafarn leol i wrando ar grwp ond doedd y bws ddim ar gael felly roedd rhaid i ni aros yn y pentref. Doedd dim ots gyda ni achos cawson ni amser gwych yn ein tai yn cymdeithasu!

DYDD GWENER

Roedd rhaid i ni frysio i bacio erbyn 8.30 i fod yn barod am y bws. Roedden ni'n gyflym yn gwneud brecwast - dim cig moch ac wyau heddiw! Bob bore arall cawson ni frecwast llawn. Roedd paratoi brecwast yn hwyl, achos roedd rhaid i ni fynd i gasglu ein pecyn bwyd bob bore, dod nol i'n bwthyn ac yna coginio droson ni ein hunain. Roedd fel chwarae tŷ bach twt! Yr unig bryd gawson ni wedi ei baratoi oedd te yn y nos, ac roedd yn bryd ardderchog hefyd - tri chwrs bob nos a dim un pryd gwael.

Mwynheuodd pawb eu hunain er nad oedd dim llawer i wneud yno yn y nos. Doedd dim teledu na chyfleusterau chwaraeon ond roedd yn le arbennig ac roeddwn i wrth fy modd yno. Roedd yn braf cael treulio'r nosweithiau yn diddanu ein hunain a welodd neb eisiau'r boes sgwar yn y gornel! Roedd y pentref mor dawel a llonydd ac roedd pwysau bywyd ysgol ymhell bell i ffwrdd.

Roedd y Gogledd yn wahanol iawn i Dde Cymru. Doedd dim trefi na siopau bob dwy filltir ac roedd pawb yn siarad Cymraeg o'n cwmpas. Roedd Saesneg yn ail iaith i ran fwyaf o'r bobl a felly roedd yn gyfle gwych i ni ddefnyddio a gwella ein Cymraeg.

Roedden ni'n lwcus iawn gyda'r tywydd trwy'r wythnos a hoffwn i fynd yn ôl i aros yn y pentref eto. Efallai ar ôl fy lefel A bydd angen arna i i fynd rhywle i ymlacio!

Sharon Jenkins
Ysgol Gyfun Coedylan.

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Glenys Roberts

YSGOL GYNRADD GYMRAEG LLANTRISANT
Yr Arolwg - Digwyddodd. Darfu. A bydd yr adroddiad allan yn ystod wythnos lawn gyntaf mis Ionawr. Dyna'r cyfan oedd gan y brifathrawes i'w ddweud! Ond deallwn fod gennym le i ymfalchio yn Ysgol y Llan - yn ôl y disgwyl. Bydd y llywodraethwyr yn anfon datganiad i'r wasg unwaith y bydd yr adroddiad wedi ei gyhoeddi.

Noson i groesawu rhieni newydd. Cafwyd noson Gaws a Gwin lwyddiannus y mis diwethaf ag mae'r plant bach yn setlo'n ardderchog.

Nosweithiau agored. Cynhaliwyd dwy noson agored - ar 20 a 21 Tachwedd - ynghyd â Ffair Lyfrau.

Noson i'r Teulu. Cynhelir y noson hon eto eleni mis nesaf a hynny yng Nghlwb Rygbi Pont-y-clun. Bydd eitemau gan y plant a disgo.

Gwasanaeth Diolchgarwch. Y gŵr gwadd eleni oedd Arfon Jones. Gwnaed casgliad i'r deillion yn ystod y dydd. Yn ddiweddar hefyd bu Rhian Evans o Gaerfyrddin yn siarad am ei bywyd fel person dall ac yn ceisio cael y plant i ddeall sut fywyd fyddai hi arnynt pe na baent yn gallu gweld pethau cyffredin bob dydd, gan gynnwys lliwiau, sef thema'r tymor.

NEWID YSGOL
Llongyfarchiadau i Gwilym Treharne, Despenser Avenue ar ei benodiad yn brifathro Ysgol Gynradd Corneli. Bu Gwilym ers rhai blynyddoedd yn brifathro ar Ysgol Glyn Coch ger Pontypridd. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd ym mis Ionawr.

CROESO I CROSS INN
Llongyfarchiadau i Carys Llywelyn a Jeremy Cochram, Cross Inn ar enedigaeth mab, sef Guto Llywelyn Cochram, brawd bach i Llew.

GWELLA
Mae'n dda clywed bod Yvonne Davies, Despenser Avenue yn gwella ar ôl cyfnod o waeledd.

YR ŴYL GERDD DANT
Bu nifer o drigolion Llantrisant yn cystadlu yn yr Ŵyl a hynny'n llwyddiannus iawn. Bu Danielle Treharne a Catrin Edwards yn cystadlu ar yr unawd telyn i rai dan 12 oed; daeth Esyllt Swain yn gyntaf ar yr unawd telyn dan 19 oed, a Mared ei chwaer yn ail ar y ddeuawd cerdd dant dan 15 oed gyda Sara Mair o Bontypridd. Cyfrannodd Wyn Thomas a Hefin Griffiths (Dirprwy Brifathro Ysgol G.G. Llantrisant) at *debut* Hogiau'r Efail ac roedd o leiaf chwech o drigolion Llantrisant yn canu gyda chôr buddugol Merched y Garth (ac yn dathlu yn y Commercial yng Nghilfynydd y nos lau ddilynol).
Os cyfrannodd rhywun arall o Lantrisant at lwyddiant yr Ŵyl, gadewch i mi wybod erbyn y tro nesaf os g. yn dda. Diolch i bobl Pen-y-bont am eu holl waith caled a'u trefniadau ardderchog.

YMDDEOL FEL CADEIRYDD
Ddechrau'r tymor yma rhoddodd Allan James, Portreeve Close y gorau i Gadeiryddiaeth Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Llanhari wedi nifer o flynyddoedd o waith diflino. Yn ôl Peter Griffiths, prifathro Llanhari 'treuliodd Allan oriau maith yn ymgyrchu dros Lanhari a thros addysg Gymraeg yn y sir, gan ddangos ymroddiad llwyr ac arweiniad cadarn.'

CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT
Ar 17 Tachwedd daeth Elenid Jones, Cymorth Cristnogol i siarad ag aelodau'r Gymdeithas yn y Brunel ym Mhontyclun am ei theithiau ac am waith y mudiad yng Nghanolbarth America. Gwelwyd tystiolaeth o'r tlodi a'r dioddefaint yn Nicaragua ac El Salvador ac o'r angen am gymorth mudiadau fel Cymorth Cristnogol yng ngwledydd y trydydd byd.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Ann Rees

Y CAPEL
Clywsom fod y goleuadau wedi eu cynnau yng Nghaerdydd; hyd yn hyn does dim goleuadau yma ond cawsom ein hatgoffa bod y Nadolig yn ymyl gan fod plant y capel eisoes wedi rhoi anrhegion wrth gyflwyno boces esgidiau yr un i'w rhoi i rywrai sy'n wynebu Nadolig caled a llwm. Gobeithio y bydd y plant fydd yn eu derbyn yn cael cymaint o bleser ac a gafodd plant y capel wrth eu rhoi.

Yn yr un oedfa derbyniwyd dau aelod newydd sef Sharon a Nigel Griffiths, Creigiau. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

TEIDIAU TWM
Aeth criw o Deidiau Twm a rhai hŷn i gyngerdd Martin Joseph yn Neuadd Dewi Sant yn ddiweddar. Cafwyd noson wych a phawb yn mwynhau.

GWELLHAD BUAN
Dymuniadau gorau i Malcolm Griffiths, Ffordd y Capel sy wedi bod yn cael llaw-driniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Manteisiwn ar y golofn hon i estyn cyfarchion y tymor i blant y pentre ar wasgar a'n dymuniadau gorau am flwyddyn newydd dda.

OEDFAON Y NADOLIG
Sul, 17 - Cynhelir oedfa gan blant yr Ysgol Sul a dilynnir hyn gan y parti.
Sul 24 - Oedfa yng ngofal y Twmiaid
Nos Sul, 24 Rhagfyr - Cynhelir Oedfa Gwŷl Nos am 11.00 o'r gloch. Croeso i unrhyw un ymuno yn y dathlu.

CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT

Cyfarfod nesaf y Gymdeithas fydd y Cinio Nadolig yn Farthings yn y Bont-faen ar 15 Rhagfyr. Ffoniwch Siân ar 204565 os hoffech ddod. Trefnir bws.

Mae taith yn cael ei threfnu i weld *Scrooge* ym Mryste ar 26/27 Ionawr. Byddai Siân yn hoffi cael yr enwau cyn gynted ag y bo modd.

YSGOL GYNRADD DOLAU

Cawsom amser gweithgar a llwyddiannus yn ystod yr hanner tymor a aeth heibio, a phrysur fydd yr hanner tymor yma gyda'r holl weithgaredd y Nadolig.

YMWELIADAU
Bu plant blwyddyn 3 a 4 ar ymweliad â Llancaiach lle y buont yn cael blas ar fywyd yr ail ganrif ar bymtheg ynghyd â gwneud canhwyllau yn null y cyfnod.

Canu nes codi'r to y bu blwyddyn 5 a 6 yn Jambori yr Urdd yn Llantrisant. Roedd y plant i gyd wedi mwynhau'r profiad.

Ymweliad tra gwahanol a ddaeth i flwyddyn 2 a 3 lle y buont yn creu cymeriadau a llunio storiau yng nghwmni yr awdures Angharad Tomos yng ngweithdy Rala Rwdins. Profiad diddorol a buddiol dros ben.

Ar yr un adeg cynhaliwyd wythnos lyfrau yn yr ysgol a gwerthwyd nifer o lyfrau Cymraeg a Saesneg.

Ymwelodd y Swyddog Diogelwch â blynyddoedd un a phump a buont yn trafod agweddau o ddiogelwch yn y cartref.

G W A S A N A E T H A U CYNHAEAF
Cafwyd gwasanaeth Cynhaeaf i'r Henoed gan Adran y Babanod a dosbarthwyd ffrwythau a llysiau i'r gynulleidfa ar ôl y gwasanaeth.

Yng Nghapel Carmel y cafwyd Gwasanaeth y Plant Iau lle bu y Parchedig Robin Samuel yn annerch. Casglwyd swm o £600 i Gronfa Tŷ Hafan.

CYNLLUNIO
Llongyfarchiadau i Bree Dunn am ennill gwobr am gynllunio clawr Cymraeg i Siarter Amgylcheddol Taf Elái. Estynnwn ein llongyfarchiadau hefyd i Ann Marie Mott, Gemma Baul ac Owain Rhys am ennill gwobr cynllunio posteri Noson Tân Gwyllt.

CHWARAEON
Bu'r Tîm Pêl Rwyd a'r Tîm Traws Gwlad yn weithgar iawn gan gael sawl llwyddiant. Enillodd Tîm Rygbi Dcg Bob Ochr yr ysgol bob gem yng Nghystadleuaeth Undeb Rygbi Cymru yn Nc Morgannwg gan lwyddo i sgorio 31 cais yn ystod y diwrnod.

Gweithdy yng nghwmni'r awdures Angharad Tomos

YSGOL GYNRADD HEOL Y CELYN

NOSON RHYNGWLADOL
Bu côr yr ysgol a'r dawnswyr yn difyrru myfyrwyr tramor yn y Ganolfan Hanesyddol ym Mhontypridd yn ddiweddar.

MABOLGAMPAU TRAWSGWLAD YR URDD
Gosodwyd merched Blwyddyn 5 yn ail yng nghystadleuaeth ardal Taf Elái.

RYGBI
Aeth criw cymysg o'r Adran Iau i ymweld â Pharc yr Arfau yng Nghaerdydd yn ystod hanner tymor.
Canlyniadau gemau rygbi dan 11 oed:
Heol y Celyn 26 Hawthorn 19
Heol y Celyn 27 Trerobart 19
Heol y Celyn 15 Coedpenmaen 10

Canlyniadau gemau rygbi dan 10 oed:
Hawthorn 30 Heol y Celyn 20
Heol y Celyn 55 Coedpenmaen 20

Canlyniadau pêl-rwyd
Heol y Celyn 5 Hawthorn 1
Cilfynydd 3 Heol y Celyn 1

ADRAN YR URDD
Dechreuodd Adran yr Urdd yn yr ysgol ar nos Fercher, Tachwedd 15ed, roedd y plant wrth eu bodd yn chwarae gemau ac yn gwneud celf a chrefft. Bydd yr Adran yn cyfarfod bob pythefnos.

CELTICA
Ar ddydd Gwener, Tachwedd 3ydd aeth chwech o ddosbarthiadau i weld arddangosfa Celtica ym Machynlleth. Cafodd y plant fwynhad yn mynd o amgylch yr arddangosfeydd ac i gwblhau'r diwrnod gwrandawsant ar storïwr yn adrodd storiau a chwedlau celtaidd.

SWYDDFA'R POST TONTEG

Dewis Helaeth o gardiau Cymraeg at bob achlysur
(Penblwydd, Priodas, Gwellhad, a.y.b.)
GALWCH HEIBIO I'N GWELD

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Eleri Jones

YMDDEOLIAD HAPUS
Ein dymuniad gorau i Minwel Tibbott, Trefelin ar ei hymddeoliad o'i gwaith yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan lle y gwnaeth gyfraniad gwerthfawr dros flynyddoedd lawer.

I BELLAFOEDD BYD
Llongyfarchiadau i Angharad Devonald "O'r Diwedd" sydd wedi'i dewis i fod yn rhan o brosiect cyffrous i ddathlu hanner can mlwyddiant y Cyngor Prydeinig yn Awstralia ddechrau 1997.

Caiff pobl ifanc o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Lloegr ac Awstralia weithio ar gynhyrchiad arbennig yn dwyn y teitl "Hunaniaeth ddiwylliannol yn yr 21 Ganrif". Bydd Angharad yn teithio i Glasgow ar ddechrau mis Rhagfyr i ddechrau ar y gwaith o gasglu syniadau a pharatoi sgript. Bydd y criw yn mynychu cyrsiau yn y gwahanol wledydd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod ac yna daw'r uchafbwynt yn Ionawr 1997 gyda thair wythnos o ymarfer yn Awstralia ac wythnos o berfformio yn Nhŷ Opera Sydney!

MERCHED Y WAWR
Cafwyd cyfarfod bywiog a difyr iawn o Ferched y Wawr ym mis Tachwedd pan drodd criw da o'r aelodau allan i groesawu Cen Williams (Cen Cartŵn) i'n plith. Cawsom gyfle i ryfeddu at ei ddawn greadigol ac i chwerthin wrth geisio dyfalu arwyddocâd y sgwigls sydyn. Do, fe enillodd rhai o'r aelodau mwyaf talentog yn ein plith wobrau am ychwanegu at gyfoeth ein hidiomau Cymraeg! Edrychwn ymlaen at groesawu gŵr dewr arall ym mherson Ifan Roberts i'n plith y mis nesaf.

CLWB Y DWRLYN
Cafwyd noson arall o Frethyn Cartref llwyddiannus dechrau Tachwedd. Bu'r aelodau amryddawn wrthi unwaith eto'n llenydda ac yn perfformio gan greu campweithiau cofiadwy. Mawr ddiolch i Geraint Huws, Llantrisant, am lywio'r noson gyda'i huotledd a'i hynawsedd arferol!!

GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Tania Wilson Price

YSGOL FEITHRIN
Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn y mis diwethaf a phawb wedi cael cyfle i ddechrau ar eu siopa Nadolig. Ar y 5ed o Ragfyr, gobeithir y bydd y plant a'u rhieni mewn llais da gan eu bod yn mynd i ganu carolau o gwmpas y pentref. Edrychwn ymlaen at noson o hwyl a gobeithir y llwyddwn i gadw'r glaw draw!

Bydd y plant yn rhoi cyngerdd Nadolig i'w teuluoedd a'u ffrindiau o dan arweiniad Ann Williams, ar Ragfyr 15ed, Bydd hyn yn wledd i'r glust ac i'r llygaid a hwythau yn eu gwisgoedd Nadoligaidd. Yna, i gloi tymor y Nadolig, bydd y plant yn cael parti ar fore dydd Iau, Rhagfyr 21ain. Dymunwn Nadolig Llawen iddynt i gyd.

YR ŴYL GERDD DANT
Cafodd nifer o'n darllenwyr, yn ieuenctid ac yn oedolion, gyfle i gystadlu yn yr Ŵyl Gerdd Dant ym Mro Ogwr yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i'r rhai lwyddodd i gyrraedd y llwyfan - aelodau Merched y Garth a enillodd y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y Côr Cerdd Dant, merched Ysgol Gyfun Llanhari a enillodd ail wobr am Barti Gerdd Dant dan 16 ac aelodau Côr Telynau Glissandi a enillodd y drydedd wobr. Hefyd i Ceri Sowden Taylor, Tŷ Ffald, a ddaeth yn drydedd ar yr Unawd Telyn dan 16 oed. Deallwn hefyd i dîm Ymryson y Beirdd y Dwrlyn gael hwyl ar y talwrna yn yr Ŵyl.

SWYDD NEWYDD
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Catrin Roberts, Tŷ Cnau sydd newydd ddechrau ar swydd fel ymchwilydd gyda Radio Cymru yma yng Nghaerdydd.

DIWEDD Y DELI
Roedd nifer ohonom sydd o bryd i'w gilydd yn manteisio ar fwyddydd parod o siop Saffron yn y pentref yn flin i glywed bod y siop i gau ar ôl y Nadolig.

CAPEL BETHLEHEM
Ar fore Sul, 26ain o Dachwedd, recordiwyd Oedfa'r Bore yng Nghapel Bethlehem ac fe'i darlledir ar Radio Cymru ar y 3ydd o Ragfyr. Bydd Gwasanaeth fel arfer ar fore'r Nadolig am 10 o'r gloch yng ngofal ein gweinidog.

CAIB
Ar ol ymprydio am bedair awr ar hugain i godi arian at "Plant Mewn Angen", roedd aelodau Caib yn falch iawn o'r Pizzas blasus a ddarparwyd iddynt. Cafodd yr un a'u cludodd yno groeso mawr! Erbyn hyn maent yn brysur yn paratoi eu cyflwyniad Nadolig.

CANU YNG NGHARTREF TREHAFOD
Ar y Sul cyntaf ym mis Rhagfyr, bydd nifer o blant ac ieuenctid yn canu yng Nghartref Henoed Trehafod.

GWELLHAD BUAN
Dymunwn wellhad buan i Mr T.W. Thomas, Greenhurst, Pentyrch sydd wedi bod yn ddihwyl yn ddiweddar.

YSGOL GYNRADD GWAELOD Y GARTH

DISGO
Cynhaliwyd disgo ar gyfer y babanod ar 17eg o Dachwedd ac un arall i'r Adran Iau ar 23ain o Dachwedd. Trefnwyd hyn gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

FFAIR NADOLIG
Cynhaliwyd Ffair Nadolig y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn Neuadd y Pentref ar Ddydd Sadwrn, Tachwedd 18fed. Diolch i'r pwyllgor am drefnu'r ffair ac i bawb a fu'n helpu ar y diwrnod. Diolch hefyd i'r unigolion a'r cwmniau am eu cyfraniadau i'r stondinau a'r raffl.

CYNGHERDDAU NADOLIG
Cynhelir cyngherddau Nadolig yr ysgol yng Nghapel Bethlehem ar Ddydd Llun, Rhagfyr 18fed am 1.30 a 6.30 p.m. a dydd Mawrth, Rhagfyr 19eg am 6.30 p.m.

BRETHYN CARTREF CLWB Y DWRLYN

Noson o hwyl ag o dynny coes gafwyd yn y King's Arms, Pentyrch ym mis Tachwedd. Unwaith eto bu rhaid galw ar y Meuryn, Geraint Hughes, i ddidoli'r gwael a'r gwirion gyda'i ffraethineb miniog. Eleni, am y tro cyntaf, rhoddwyd marciau ychwanegol am gyfansoddiadau wedi eu paratoi ar Windows '95 - ac fel arfer, roedd un ar flaen y gad!

Dyma rhai o'r cyfansoddiadau:

Beddargraff i Wil Carling:
Capten Lloegr
Tywysog Cymru

I Julia bu'n Wili ac i Dai Bu'n Darling
Un caled yn y canol oedd Carling

Bet Lynch
I farmêd y Rovers
Heno, nid oes Return

Jonesey
Yma gorwedd Eifion Jones
Dim o gwbl rhwng ei hed-ffôns
Dim o gwbl i'w gadw'n bur
Ond "dim" oedd o cynt a dweud y gwir!

Jonesey
Ffarwel i Dei a Hywel
Ffarwel i Aled Sam
Helo i "be dwi'n swndio fel"
A "be dwi'n siarad am."
Idiom ac idiot ddaeth ynghyd
Nid y Gymraeg sydd i'w chadw'n bur o hyd.

Cwpledi

I Tim Williams
Paham iti ein hamau?
Daw yr had wedi hir hau.

I Elwyn Jones
Taeru wnei fel pob Tori bolgrwn
nad yw Hwn yn Hi.

Brawddeg "s"
Syfrdanwyd San Steffan - senedd saff siawns, 'sdim slîz.

Saethwyd seren Seinai, siglwyd sylfaen sanctaidd, Shalom.

Swn Sacthu Serbiaid Sarajevo sy'n syfrdanu'n synhwyrau.

Salmau Sanctaidd soniarus Seilo, sobrodd Shoni'r Ship.

Stondin Sulwyn Stop!

LIMRIG

Tra'n sgio ar lethrau yr eira
Fe welais rhyw fflach ar y copa;
Meddyliais mai mellten
A'm pasiodd fel bollten,
Ond Bronwen oedd ar ei ffordd adra.

TELIGRAM
Sulwyn Thomas,
Ochneidiais neithiwr. Dim isho'r newidiadau.
Synau uffernol!
Lewis wylodd yn Nefyn.

CERDD - Y TWLL MEWN UN
Feuryn annwyl
Hoff o chwifio'th ffon
Yn ymyl ffriddoedd
Breision Radur draw,
Beth yw d'obeithion di
O wireddu'r freuddwyd hon?
Dengys ystadegau lu,
33,616 i 1 yw'r siawns
I feidrolyn gael ateb i'w weddi
Ond ti, ti sgori'n fuan iawn!
Oherwyd dy hynawsedd - o ie, a'th ddawn.

DEG GORCHYMYN YR UGEINFED GANRIF

1. Na foed i ti dduwiau eraill ar wahan i William Hague neu unrhyw Sais bach arall sy'n cael ei wthio ar Gymru fel Ysgrifennydd tra'n disgwyl am joban well.

2. Na fydded i ti ddelw gerfiedig ar wahan i soser lloeren Mr Murdoch, sy'n llond bob lle a phresennol ymhob man.

3. Na wna odineb, os nad wyt ti'n siwr na chei dy ddal.

4. Na ladrata, onibai dy fod yn gyfarwyddwr cwmni wedi ei breifateiddio, ac felly'n medru gwneud hynny'n gelfydd drwy *share-options* ar draul dy gwsmeriaid, megis y gwnaeth penaethiaid Dwr Cymru.

5. Na fydded i ti dalu am unrhyw beth gydag arian parod tra bod plastig yn dy boced.

6. Na foed i ti chwenychu car N-reg newydd dy gymydog, achos fydd o ddim yn ei feddiant yn hir iawn beth bynnag os caiff bechgyn Trelai eu ffordd.

7. Na chwyna am nad oes gen ti job. Yn hytrach, dos allan i brynu tocyn loteri a byw ar freuddwydion yn lle rhamantu am hawliau gweithwyr a rhyw nonsens undebol sentimental.

8. Anrhydedda actorion Pobl y Cwm, canys maen nhw'n ennill lot mwy o arian na thydi.

9. Paid a beirniadu unrhyw Cwango, oherwydd mi fyddai hynny yn ei gwneud hi'n anodd i ti dderbyn swydd pan ddaw dy dro di.

10. Bydded i ti anfon dy blant i ysgolion Cymraeg, achos maen nhw'n ddigon elitaidd, a bydd i ti lefaru o blaid yr Urdd a'r Ŵyl Gerdd Dant gan eu bod yn ffasiynol ac yn ddiniwed, ond gochel rhag gwneud unrhyw safiad go iawn dros yr iaith rhag ofn i hynny gostio i ti.

DEGFED WYL DDRAMA TAFOD ELÁI
Beirniadaeth Heddyr Gregory

Ar ôl pedair noson o fwynhau gwledd o ddramau daeth y foment fawr - y foment rydych chi i gyd wedi bod yn disgwyl yn eiddgar amdani - a'r foment rydw i wedi bod yn ceisio ei hosgoi drwy'r wythnos! Hoffwn ddiolch i Colin a phwyllgor Tafod Elái yn y lle cyntaf am y gwahoddiad i feirniadu'r ŵyl. Mae wedi bod yn bleser o'r mwyaf ac mae wedi bod yn hyfryd cael diane o'r tŷ bob nos ar adeg cyfleus iawn - adeg bath, bwyd a rhoi'r un bach yn ei wely.

ADRAN YSGOLION

Rydw i'n credu y dylem longyfarch y chwe chwmni - yn cynnwys criw Beca o Ysgol Gynradd y Bronllwyn (er nad ydynt yn rhan o'r gystadleuaeth) am gyflwyno i ni gynhyrchiadau safonol. Gyda'r pwysau gwaith cynyddol ar athrawon a disgyblion fel ei gilydd mae'n hyfryd gweld eu bod yn dal i ffeindio amser a brwdfrydedd i fynd ati i fod yn greadigol.

CWMNI CWM RHYMNI "Y FAMDDELW"

Nos Fawrth agorwyd yr ŵyl gan gwmni Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn perfformio'r "Famddelw" gan Alan Ayckbourne (cyfieithiad Emyr Edwards). Am daro tant cyfarwydd! Wele'r myth o fam draddodiadol wedi mynd drwy'r ffenest a chafwyd darlun trist a realistig iawn drwy'r hiwmor o'r fam sy'n gaeth i'r cartref a'r cyfrifoldeb o fagu plant ar ei phen ei hun mwy neu lai. Cafwyd portreadau hyfryd gan y tri actor yn y cwmni yma:

Lucy - yn ei byd bach ei hun ddim yn talu unrhyw sylw o gwbl i gleber gwag Rosemary drws nesaf. Yna'r siarad nawddoglyd - doedd Lucy druan ddim yn gallu diane oddiwrth ei rôl fel mam.

Rosemary - portread hyfryd o'r fenyw drws nesaf sydd ddim cweit yn siwr sut i ymateb i'w chymydog rhyfedd ond yn cael ei chario i ffwrdd gan ffantasi'r sefyllfa ar adegau ac yn mwynhau chwarae rôl y plentyn.

Terry wedyn - cymeriad hoffus iawn er waetha'i syniadau hen ffasiwn a'i ymgais at chwarae'r bos yn y berthynas.

Roedd y ffrae ar y diwedd yn uchafbwynt hyfryd i'r ddrama a chafwyd actio arbennig o dda yma gan y tri chymeriad - a Terry yn chwarae'r plentyn pwdlyd, annwyl yn fendigedig. At ei gilydd, perfformiad graenus o'r ddrama hon.

CWMNI YSGOL LLANHARI "FORY"

Drama gyfoes yn ymdrin â phynciau emosiynol iawn fel erthyliad ac anffrwythlondeb ac fe gafwyd portreadau sensitif iawn gan y ddwy ferch ifanc hon o'r gwragedd a'u sefyllfaoedd cymhleth i gloi nos Fawrth.

Llwyddwyd i gyfleu tristwch eu sefyllfaoedd gydag angerdd, ac eto cafwyd cyffyrddiadau doniol ddwys wrth i'r cyfeillgarwch rhyngddynt ddatblygu.

Chris - y cymeriad a oedd yn cael trafferth beichiogi. Cafwyd portread cryf o'r cymeriad agored yma - cymeriad gonest iawn - a thristwch ei sefyllfa yn treiddio drwy'r dewrder allanol a'r hiwmor. Cymeriad cymhleth iawn ond fe wnaeth yr actores hon gyfiawnhad â'r cymeriad.

Eileen - portread sensitif iawn o'r groten ifanc "naïf" yma mewn ffordd. Hoffais y cymeriad yma'n fawr a llwyddwyd i gyfleu angerdd ei sefyllfa i'r dim.

Cafwyd cyd-chwarae hyfryd gan y ddwy actores yma ac fe gawsom gyfle i ddod i adnabod y ddwy yma a'u hamgylchiadau personol a'u emosiynau preifat yn ystod y golygfeydd a gyflwynwyd i ni. Da iawn chi, ferched.

Lluniau:
Ochr Chwith -
Y Famddelw,Cwm Rhymni,
Gwaelod Chwith -
"Fory", Llanhari
Gwaelod Dde - "Ar y Tir", AYYB

CWMNI AYYB TON "AR Y TIR"

Hyfryd oedd gweld drama wedi'i ysgrifennu gan un o dalentau ifanc yr ŵyl yn cael ei pherfformio gan gwmni lleol.

Cyfres o olygfeydd tanddaearol a gafwyd yma - a'r syniad tu ôl i'r plot o ddychwelyd i fyw ar y tir a herio'r frenhiniaeth tanddaearol yn un cyffrous ac anturus. Roedd y ddrama'n llifo'n rhwydd o un olygfa i'r llall. Roedd yma gymeriadau diddorol a chryf - pobl fel Fflam a Meurig y tywysog ac fe lwyddodd y criw bach yma i lwyfannu drama a oedd yn gofyn tipyn ohonynt fel actorion.

Mae'n hyfryd gweld criw o bobl ifanc yn dod at ei gilydd tu allan i oriau ysgol - i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn haeddu canmoliaeth am hynny.

CWMNI BRONLLWYN "BECA"

Doedd y criw ysgol gynradd ym ddim am fod yn rhan o'r gystadleuaeth ond fe gawsom gyhyrchiad bywiog a lliwgar tu hwnt - ac roedd llawer iawn o waith wedi mynd i mewn i'r dasg o hyffordi'r criw ifanc iawn yma. Onid oedd hi'n bleser gweld y criw yma yn rhoi 101% i mewn i'r perfformiad.

Roedd eu gwisgoedd yn hyfryd a'r milwyr yn arbennig wedi ychwanegu lliw mewn mwy nag un ffordd i'r cynhyrchiad bywiog hwn! Roedd Major John a'i griw o ddynion anystywallt yn destun llawer iawn o hiwmor yn y cyflwyniad - heb sôn am Thatcher ei hun! Yn sicr cafwyd sawl ergyd wleidyddol hanesyddol a chyfoes. Sgript clyfar iawn.

Hoffais y gerddoriaeth yn fawr a'r cyfeiliant yn broffesiynol tu hwnt. Roedd y plant yma wrth eu boddau ar y llwyfan ac roedd yn gynhyrchiad llawn egni a brwdfrydedd. Daliwch ati Ysgol Bronllwyn - mae gennych dalentau mawr yma!

AGI, AGI, AGI - Cwmni Menter Taf Elái

CWMNI MENTER TAF ELÁI "AGI AGI AGI"

Dyma griw bywiog (yn gymysgwch o Hwntws a Gogs!) yn cyflwyno'r ddrama hollol sexist, hiliol a "gwleidyddol anghywir" hon gan Urien William a Tomi mawr - y cliché o foi rygbi â'r ego anferthol - ond uffach roedd hi'n sbort! Ac mi gafodd y cast hwyl ar ei pherfformio.

Seren y sioe, heb ots, oedd Jones yr athro chwaraeon, a ychwanegodd ei hiwmor ei hun i'r sioe - "Bangor lad, aye"!! Ac wrth gwrs, anwyldeb rhen Domi bach. Cafwyd cyffyrddiadau hyfryd drwy'r perfformiad - y "ddawns" ac hefyd y gêm rygbi "slow motion" (darn o waith meim hyfryd). Hoffais hefyd araith y Prifathro a'i griw o ddisgyblion gwbl anwar.

Yn sicr, perfformiad llawn o egni a graenus iawn gan griw mawr o actorion ardal Taf Elái.

CWMNI YSGOL GWYNLLYW "DAN Y WENALLT"

Yma cafwyd cyflwyniad syml o ran cynllun set a gwisgoedd o ddetholiad o "Dan y Wenallt" gan Dylan Thomas (cyfieithiad T. James Jones). Cafwyd cyflwyniad graenus iawn gan griw o actorion talentog. Cafwyd portreadau hyfryd o rai o gymeriadau mwyaf hynod Llanegyb - ac roedd y ddeialog yn slic iawn ar adegau - er enghraifft y menywod yn clebar ar y stryd.

Gwnaed defnydd effeithiol iawn o lefelau ac roedd yn berfformiad gweledol diddorol - ac yn lleisiol gryf (o ran acenion a chymeriadaeth).

Eu dawn i gymeriadu oedd yn cynnal y perfformiad hwn ac, yn sicr, roedd yn ddarn o waith graenus tu hwnt - gyda phob actor yn rhoi gant y cant drwy gydol y darn. Yn sicr, roedden nhw'n griw talentog iawn a chafwyd perfformiad caboledig tu hwnt. Doedd yna'r un man gwan drwy gydol y perfformiad.

Trueni na fuasai'r detholiad ychydig yn hwy.

"Beca"
Cwmni Bronllwyn

Y BUDDUGWYR

ADRAN YSGOLION/IEUENCTID
Cystadleuaeth glos iawn ac mi fues i'n pendroni am hyn drwy nosweithiau'r wŷl tan y noson olaf. Setlwyd y broblem gyda'u cynhyrchiad arbennig o Agi, Agi, Agi.Mae Tlws Drama Ieuenctid yn mynd i Gwmni Menter Taf Elái.

ADRAN OEDOLION
Dyma'r categori anoddaf i'w feirniadu o bell fordd - hoffais y "Golden Girls" yn fawr iawn am eu doniau actio ond heno mae'n siwr am ei bod hi'n ddrama wreiddiol a'r holl beth dros ben llestri'n llwyr - Cwmni'r Dwrlyn B sy'n mynd â'r wobr am "Ddiwrnod i'r Becar".

NOSON LAWEN
Tip Top! Cwmni'r Dwrlyn yn llawn haeddu'r wobr am y Pry Mantis os nad am ddim byd arall!! - Tip Top!

PANTOMEIM
Lliwgar, bywiog, difyr - Llanhari.

CWMNI GORAU'R WŶL
Agi, Agi, Agi - Menter Taf Elái

ACTOR/ACTORES YR WŶL
Cafwyd actio penigamp drwy'r cynyrchiadau i gyd - dau yn aros yn y cof Jones Gêms a Chris Llanhari. Am ei phortread cryf o gymeriad cymhleth iawn mae'r wobr yn mynd i Angharad Devonald.

Miss Catrin Jones, ar y dde - bu'n gysylltiedig â thri cynhyrchiad yn yr Wŷl.



Dan y Wenallt - Cwmni Gwynllyw

CWMNI PWY? YSGOL GYFUN GLANTAF "ANNWYL NEB"
Gwaith a ddyfeisiwyd ac a sgriptiwyd gan griw o ddisgyblion Blwyddyn 12 ar ffurff cyflwyniad. Cafwyd gwaith tîm hyfryd yma a'r cast yn amlwg yn gweithio fel un i greu cyfanwaith ddiddorol a pherthnasol. Seiliwyd y darn ar broblemau pobl ifanc - y golofn gofidie "Annwyl Neb" gan ganolbwyntio ar y teimlad unig o fod yn wahanol.
Defnyddiwyd technegau hyfryd ar adegau - hoffais y sgwrs ffôn a'r cydwybod yn llythrennol yn pigo yn y cefndir. Yna'r gadair ddu wrth holi perfedd cymeriad mewn picil ar ddull Mastermind.

Yng nghanol dwyster ac ing meddwl rhai o'r cymeriadau, cafwyd ambell gyffyrddiad hyfryd o hiwmor gyda'r gystadleuaeth "llwch yn y Blwch" er enghraifft ac ni allwn anghofio cymeriadau fel ELSIE a'i "routine" wrth gyflwyno'r gwrthrychau, Sharon o Aberdâr, Glesni o Llysfaen a Dai Tractor.

Yn sicr cafwyd hanner awr o ddifyrrwch gan griw o actorion ifanc hyderus a gyflwynodd y gwaith mewn modd hwylus a bywiog.

CRIW ATHRAWON LLANHARI "SAIM"

Dyma griw o athrawon dewr iawn yn mentro ar lwyfan o flaen neuadd o ddisgyblion - a hyd yn oed prifathro. Cafwyd digon o jôcs "risqué" a chyfeiriadau aflednais iawn ar adegau - ac mae'n amlwg mai dyma oedd y gynulleidfa eisiau. Cymeriadau cofiadwy iawn a'r cast yn amlwg wedi mwynhau bob munud o'r cyflwyniad.

PANTOMEIM BLWYDDYN 12 LLANHARI

Agoriad trawiadol i'r pantomeim hwn oedd yn frith o liw a chymeriadau diddorol - o'r Olive Olewydd seimllyd a'r Oilettes i Petra'r pysgodyn aur anghofus.

Cafwyd holl nodweddion y pantomeim traddodiadol, y gynulleidfa yn ymuno, digon o slapstick, y drwg yn erbyn y da, "dame" y pantomeim a stori garu draddodiadol yn gefndir i hyn i gyd.

Drwy'r cyfan cafwyd digon o jôcs a sylwadau "tafod ym moch". Hoffais y gân agoriadol a chlo'r pantomeim - ond ddim cweit cystal â'r syrffwyr eu hunain!! Yn sicr, cafwyd bron i awr o adloniant pur ac roedd y criw eu hunain yn amlwg yn mwynhau'r rialtwch. Ac, wrth gwrs, bu pawb yn hapus byth wedyn!

NOSON LAWEN CWMNI'R DWRLYN

Rhaglen ddifyr iawn - ar ôl hir ddisgwyl i'r cwmni gyrraedd y llwyfan. Cafwyd eitemau amrywiol iawn yn cystadlu yn rhaglen arbennig o'r gyfres "Tip Top" - Parti Cerdd Dant, Deuawd Tracy ap Gwynfor a Ceinwen Lomu, y Wynffets, y Band Tupperware, Côr Crachach y Garth ac uchafbwynt y rhaglen Priodas y Pry Mantis. A'r cyfan wedi'i gyflwyno'n gelfydd gan y cyflwynydd glitzy.

Y gynulleidfa ar eu traed yn Saim

Pantomeim Llanhari

Noson lawen "Tip Top"

ADRAN OEDOLION

CWMNI'R DWRLYN A COLLI JOHN ALBERT

Un peth wnaeth fy nharo i am y ddau gwmni'r Dwrlyn oedd moethusrwydd y set!! Roedden nhw mor awyddus i fod yn chwaethus fel y gwnaeth y cynhyrchydd ofyn i'r beirniad am gael defnyddio ei chadair gan fod arni dipyn bach o lledr ar y llwyth plastig. Ches i fyth mo'r gadair yn ôl gyda llaw!

Ta beth, yn y ddrama hon, er mor amlwg oedd y plot, cafwyd protread gwych gan y bump actores o gymeriadau benywaidd y gymdeithas gul Gymreig. Dyma'r Golden Girls Cymraeg. Roedden nhw'n gymeriadau cartwn i gyd bron, ond fe lwyddodd yr actorion dawnus i odro bob owns o hiwmor ohonynt. Tipyn o gamp.

Roedd "double act" Mair a Mildred yn un cofiadwy iawn ac fe lwyddodd Mair yn enwedig i gadw'r gynulleidfa yn eu dyblau drwy gydol y perfformiad.

Roedd hwn yn berfformiad cytbwys iawn a chafwyd perfformiadau cofiadwy iawn gan bob un aelod o'r cast.

CWMNI CWM NI "GARDDWEST GOSFORTH"

Hoffwn nodi yn y fan hon bod y cwmni wedi bod yn ddewr iawn yn mentro i'r llwyfan ag un aelod o'r staff yn yr ysbyty. Gallaf eich sicrhau na wnaeth hynny amharu ar fwynhad neb o'r ddrama hon gan i'r cofweinydd a gamodd i'r adwy wneud jobyn credadwy iawn o ran Mrs Pearce! Mi wnaeth hi actio, nid darllen y rhan. Da iawn, chi.

Cafwyd llu o gymeriadau diddorol iawn yn y ddrama hon - yn amrywio o Gosforth ei hun (y 'fascist' dan din) i Joanna Braithwaite (gwraig fach "anffodus" y ficer).

Ar y cyfan, roedd yn gynhyrchiad bywiog a hwyliog gyda'r criw yn llwyddo i greu bwrlwm a "chaos" cyffredinol yr arddwest yn effeithiol gan adeiladu at yr uchafbwynt yn ystod araith Mrs Pearce ar y diwedd.

Gwnaed defnydd o effeithiau technegol gan y cwmni hefyd a lwyddodd i ychwanegu at y cyfanwaith.

Perfformiad graenus iawn gan y cwmni yma - er gwaetha'r ffaith bod aelod o'r cast gwreiddiol ar goll.

Cwmni'r Dwrlyn A

CWMNI'R DWRLYN B "DIWRNOD I'R BECAR"

Unwaith eto, set drawiadol iawn - "elaborate" tu hwnt yn cynnwys pabell, wigwam, set patio gyfan, barbiciw, a hanner Gerddi Tŷ Dyffryn. Ond mi roedd y set yn effeithiol a'r 'gormodedd' yn nodweddiadol o naws y ddrama yn gyffredinol. "Dros ben llestri" yw'r ymadrodd sy'n gweddu orau i'r cynhyrchiad hwn - o'r 'hipi' Cymreig â'r acen Ffrengig i'r cynllun hollol anghredadwy o gilio bant i'r Wyl Werin yn Llydaw. Cafwyd 'caricature' hyfryd o'r Cymro Cydwybodol Cymreig na fethodd 'Steddfod Genedlaethol ers 1958 - ac roedd y portread o'r cymeriad hwn yn arbennig o dda.

Cwmni'r Dwrlyn B

Cwmni Cwm Ni

Colin Williams, Trefnydd yr Ŵyl

Y Dewin yn y Pantomeim

Diolch i bawb â gynorthwyodd i greu gŵyl lwyddiannus arall. Y noddwyr - Cyngor Taf Elái, Cwmni Elidir, Derwen, Cambrensis. Mr Brian Williams, Gofalwr Neuadd Dowlais. Arlwyo - Cynllun Gofal y Creigiau, Cylch Meithrin Tonteg, Gohebwyr Tafod Elái, Pwyllgor Cymraeg i Oedolion Taf Elái. Ffotograffydd: D.J. Davies. Stiwardiad: Gill Rees a David Knight. Cyfeilydd yr Ŵyl: Carey Williams. Y Beirniad: Heddyr Gregory. Y Trefnydd: Colin Williams.

GEIRIAU'R NADOLIG ?

celyn	baban
uchelwydd	anrhegion
seren	doethion
coeden	stabl
angel	asyn

I	C	C	O	E	D	E	N	A
W	E	M	G	U	S	D	T	N
A	L	U	Y	CH	F	O	FF	RH
N	Y	E	S	E	R	E	N	E
G	N	I	T	L	W	TH	E	G
E	T	C	A	W	A	I	L	I
L	A	N	B	Y	S	O	B	O
M	O	R	L	DD	Y	N	C	N
B	A	B	A	N	N	R	I	W

ANRHEGION I'W LLIWIO



Hwyl i Bawb

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Delyth Jones

CYDYMDEIMLAD
Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Dorothy Todd a'r teulu ar golli tad Mrs Todd yn sydyn ar ddiwedd mis Tachwedd.

YSGOL PONT SIÔN NORTON

DYDDIADUR NADOLIG
Nos Wener, 1af Rhagfyr - Noson Rasio Ceffylau yn yr ysgol.
Dydd Sul, 10ed Rhagfyr - Gwasanaethau Nadolig yng Nghapel Sardis, Babanod yn y bore, Adran Iau yn y nos.
Parti Nadolig, 18ed Rhagfyr.

PÊL RWYD
Llongyfarchiadau i dîm yr ysgol - dyma y canlyniadau diweddaraf.

PSN	2	Trefforest	4
PSN	8	Trerobart	0
PRN	8	St. Michael	2

ADRAN YR URDD
Bydd yr Adran yn ymweld â gweithgareddau Nadolig Amgueddfa Werin Sain Ffagan ar y 7ed o Ragfyr.

YSGOL EVAN JAMES

ANELU AM FIL
Mae'r ysgol wedi codi dros £900 ar gyfer yr elusen National Children's Homes.

DIWRNOD LLIWGAR
"Lliwiau" yw thema'r ysgol y tymor hwn ac felly ar ddydd Plant Mewn Angen gofynnwyd i bawb wisgo dillad mor lliwgar a phosib. Casglwyd £200 i'r apêl.

LLAWDRINIAETH
Falch i weld Gareth Owen yn ôl ar ôl cael ei donsils mas.

DYDDIADUR NADOLIG
Ffair Nadolig ar Nos Iau 7ed o Ragfyr.
Cyngerdd Nadolig yr ysgol yng Nghapel Sardis am 6.30 nos Fawrth, 12ed o Ragfyr.

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Helen Jones

YSGOL FEITHRIN TONTEG
Ar y seithfed o Ragfyr fe fydd plant yr Ysgol Feithrin yn mynd am drip i weld Siôn Corn. Byddant yn mynd ar y bws i Aberhonddu ac yna yn teithio ar y trên stêm i Grotto Siôn Corn, gan obeithio derbyn anrheg ganddo yno.

CYDYMDEIMLAD
Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Mr Henry Jones, Tonteg Close a fu farw ar ôl anhwylder byr. Roedd Mr Jones, a oedd yn hannu o'r Felinheli, yn athro piano caredig i lawer o blant yr ardal ac roedd ei farwolaeth sydyn yn siom i lawer ohonom.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i Ruth a Cerian Jenkins, Y Ridings, Tonteg wedi i Ruth golli ei mam yng nghyfraith yn ddiweddar.

YSGOL GYMRAEG GARTH OLWG

NOFIO
Llongyfarchiadau i Cerian Jenkins, Blwyddyn 4, ar gyrraedd Gala Nofio Genedlaethol yr Urdd ym Mangor ar Ragfyr 9ed. Fe fydd Cerian yn cystadlu ar y dull rhydd unigol. Llongyfarchiadau i'r tîm i gyd a fu'n cystadlu yn y rownd sirol.

RHAI GWEITHGAREDDAU NADOLIG
Rhagfyr 8 - Ffair Nadolig am 3.30 yn Neuadd yr Ysgol.
Rhagfyr 12 - Ffair Lyfrau Cymraeg yn Neuadd yr Ysgol - trefnir gan Ganolfan yr Urdd, Merthyr.
Rhagfyr 14 - Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Salem Tonteg am 6.00 o'r gloch.
Rhagfyr 15 - Cinio Nadolig i blant yr ysgol.
Rhagfyr 18 - Parti Nadolig plant ieuengaf yr ysgol
Rhagfyr 19 - Disgo Nadolig plant hyn yr ysgol.

SEINIAU'R NADOLIG
JOHN ac ALUN "OS NA DDAW YFORY"
Caset a CD newydd sbon
DARLUN FY MAM - Casgliad o unawdau poblogaidd i ferched gyda -
Leila Megane • Mary Lloyd Davies •
Eirian James • Bethan Dudley . . .
CÔR SEIRIOL - caset/CD o ganeuon newydd a cherdd dant gan y Côr Merched o ardal Bangor
DAFYDD DAFIS - y canwr poblogaidd yn cyflwyno ei albym cyntaf
IONA AC ANDY - y gwr a gwraig yn cyflwyno albym newydd o ganu gwlad
DAFYDD IWAN - albym o'i ganeuon newydd o'i gyfres deledu
CUSAN TÂN - cerddoriaeth wreiddiol acwstig
CARREG LAFAR - "YSBRYD Y WERIN" - Cerddoriaeth werin Geltaidd Gymreig
O'CH SIOP LEOL NEU DRWY'R POST gan SAIN • LLANDWROG • CAERNARFON • GWYNEDD • (01286) 831 111

LLANILLTUD FAERDREF

Gohebydd Lleol: Siân Elin Lewis

GWELLHAD BUAN
Da gweld Lesley Jones, St Anne's Drive, Crown Hill yn gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Ein dymuniadau gorau hefyd i Lucy Powell, Woodlands Park, un o blant bach y Cylch Meithrin sydd yn cael llawdriniaeth yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau am wellhad buan oddi wrth dy ffrindiau yn y Cylch Meithrin, gyda'r gobaith y byddi di nol gyda nhw cyn bo hir.

DISGO
Ar Ragfyr 19eg, cynhelir Disco Noddedig yn Neuadd Dowlais, gyda'r elw at gynnal y Cylch Meithrin. Mae croeso i blant yr ardal ddod i'r disgo. Bydd yn cychwyn am bedwar o'r gloch ac yn gorffen tua chwech o'r gloch. Pris mynediad yw 50 ceiniog i'r plant na noddwyd i ddawnsio.

CYLCH TI A FI
Bob bore Gwener mae'r Cylch Ti a Fi yn cwrdd yn Neuadd Dowlais o 9.30 tan 11.30. Am unrhyw fanylion pellach, cysylltwch â Pam Lloyd ar 206779.

AIKIDO DAN 12
Mae'r sesiynau Aikido yng Nghanolfan Chwaraeon Llanilltud Ferdref, Parc Canol, yn mynd o nerth i nerth. Erbyn hyn mae tua deg ar hugain o blant yn mynychu'r sesiynau ar Nos Iau o 5p.m. hyd 6 p.m. Os oes gennych ddiddordeb - dewch i ymuno yn y dysgu a'r hwyl. Codir tâl o £1 y sesiwn. Am ragor o fanylion cysylltwch â Lowri Devonald, Menter Taf Elái, Y Tŷ Model, Llantrisant. (226386

GWYL GERDD DANT

Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal a gymerodd rhan yng Ngwyl Gerdd Dant Bro Ogwr ym Mhenybont ar 11fed o Dachwedd. Dyma'r buddugwyr: Deuawd Cerdd Dant dan 15 oed: Ail Sarah Mair a Mared Eleri Swain. Parti Cerdd Dant dan 15 oed: Cyntaf Ysgol Gyfun Rhydfelen, Ail Ysgol Gyfun Llanhari. Parti Cerdd Dant dan 19 oed: Cyntaf Merched Rhydfelen, 3ydd Meibion Rhydfelen. Côr Cerdd Dant: Cyntaf Merched y Garth. Telyn dan 12 oed: Trydydd Elin Catrin Llwyd, Llantrisant. Telyn dan 12 - 16 oed: Cyntaf Esyllt Angharad Swain, Llantrisant. Trydydd Ceri Taylor, Pentyrch. Grwp Telynau: Trydydd Glissandi, Ysgol Llanhari. Cydadrodd dan 25 oed: Cyntaf Ysgol Gyfun Rhydfelen. Canu Gwerin dros 16 oed: Cyntaf Menna Thomas, Pontypridd. Dawnsio Gwerin dan 16 oed: Ail Nantgarw Bach.

S4C DUDLEY'N NÔL

Bydd Dudley Newbury, o Ynysybwl, yn cychwyn cyfres newydd o'r raglen boblogaidd am goginio ar Ionawr yr ail yn y flwyddyn newydd. Hefyd bydd ganddo raglen arbennig Dolig Dudley ar nos Fercher, Rhagfyr 20fed. Ffilmiwyd y rhaglen Nadolig yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan ac mae Dudley yn rhannu ei gyfrinachau wrth iddo baratoi sawl math o stwffin a saws. Bydd Dudley yn cynnig syniadau ar gyfer sawl pryd blasus ac yn awgrymu gwahanol bethau i wneud gyda'r holl dwrci sydd ar ôl wedi'r diwrnod mawr.

Un tip yw glanhau a pharatoi'r llysiau ar noswyl Nadolig, eu coginio (ond nid yn llawn) yn y bore a'u twymo am funud neu ddwy wrth i chi weini'r bwyd. Awgrym arall er mwyn rhoi ychydig o wmff i'r hen dwrci yw cogionio peli twrci i'w bwyta gyda dips, salad neu sglodion.

"Dwi ddim eisiau mynd yn rhy uchel ael. Rwy'n credu bod gwylwyr moyn gweld ffordd hawdd o goginio yn hytrach na gweld fi'n coginio bwyd sy'n edrych yn wych, mae'n bwysig nad yw pobl yn rhy ofnus i arbrofi adre'." meddai'r cyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Rhydfelen a ysgogwyd i fyd coginio gan ei athrawon ysgol, Marina James a Tom Vale a'i rieni.

Siop Trîn Gwallt

"Tangles"

Prif Heol, Pentre'r Eglwys
01443 201565
Croeso cynnes oddi wrth
Kerry - Michelle - Jo

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 01222 484816

SIOP BARA Y PENTREF
Heol St Illtyd
Pentre'r Eglwys

Bara a chacennau wedi eu pobi yn y siop mewn ffwrn draddodiadol.
Mrs Janet Evans
01443 202013
Trefnir Arlwyo

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

CAPEL Y TON

Roedd yn hyfryd i weld Mrs Jean Thomas yn ôl yn yr oedfa nos Sul 19eg o Dachwedd. Cafodd Jean ddamwain ar balmant yng Nghaerdydd, fe syrthiodd a niweidio ei hyn ac mae wedi cael effaith andwyol arni.

Mae'n hyfryd i weld dwy o'n aelodau wedi dychwelyd ar ôl pythefnos yn Sbaen sef Mrs Vida Morgan cyn brifathrawes ysgol gynradd Ton a Miss Jean Thomas a oedd yn cadw siop Bwtsiwr cyn ymddeol rai blynyddoedd bellach. Croeso nôl i'r ddwy ar ôl bod yn y tywydd twym.

PENBLWYDD

Ar y 16eg o Dachwedd bu Mrs Charlotte Roberts yn dathlu ei phenblwydd yn 90eg oed. Gwraig i'r diweddar Robert Roberts gynt o'r Gilfach Goch, ond erbyn hyn mae Mrs Roberts yn byw gyda'i merch a'i mab-yng-nghyfraith yn Heol y Gilfach, Tonyrefail. Mae ei merch, Mrs Myfanwy Hunt yn aelod yng Nghapel y Ton hefyd mae John yn dod i'r oedfaon yn aml. Bu croeso bendigaid i'r aelwyd yn Homelea i bawb a dry i fewn i longyfarch Mrs Roberts. Bu farw ei gŵr, Mr Bob Roberts fel ei gelwyd, ryw ddwy flynedd yn ôl. Un peth anarferol yw fod yno bedair cenedlaeth pan gelwais i fewn ar ôl yr Oefa Sul - Mrs Roberts, Fanw ei merch, Siân sydd yn feddyg yn ardal Penybont ar Ogwr a'i merch hithau, Angharad Katie, a James ei gŵr, . Hefyd mae yna bedair cenedlaeth ar ochr arall y teulu. Mae mam John sef Mrs Hunt, John, Siân ac Angharad Katie. Llongyfarchiadau mawr i Mrs Roberts a diolch i'r teulu am edrych ar ei hôl.

ARDAL CWMLAI

Hyfryd yw gweld Mr Garfield Lewis, Tylcha Wen, yn ôl gartref ar ôl treulio rhai wythnosau mewn ysbyty yn Nhwrci yn dilyn trawiad ar y galon. Croeso nôl iddo a gwellhad buan.

Mae disgyblion ysgol Cwmlai wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn gwneud ffenestri lliw a bwriedir cyflwyno un i bob Capel ag Eglwys yn Nhonyrefail. Diolch yn fawr i'r Prifathro, Mr David Jones, a'i staff i gyd. Llongyfarchiadau iddynt.

Mrs Charlotte Roberts

MEITHRIN

Cynhelir Ffair Nadolig Ysgol Feithrin Thomastown ar y 25ain o Dachwedd a disgwylir Siôn Corn i ddod hefyd.

TAITH I CENTRE PARCS

Cafodd y wraig a minnau'r fraint o fynd gyda'r mab a'r ferch yng nghyfraith a'r wyres, Angharad, i "Centre Parcs" drws nesa i Longleat yn Swydd Wilts. Mae yno le hyfryd beth bynnag fydd y tywydd. Mae yno dros 600 o villas i bobl aros wedi eu lleoli rhwng y coed. Mae yno dri dewis i aros penwythnos Gwener i Llun neu Llun i Gwener fel y gwnaethom ni, neu Sadwrn i Sadwrn. Mae yno ddigon o bethau i'n diddori a chadw'n heini. Yn y Plaza mae yna bwll nofio anferth ac ar nbrydiau maent yn ei wneud yn donau mawrion fel ar lan y môr. Hefyd mae Jaccusis, un tu fewn a'r llall yn yr awyr agored ag yn boeth iawn ag yn byrlymu. Yn rhan arall o'r 500 erw mae lle i chwarae gemau er enghraifft tennis dan dô a thu allan, bowlio a pheiriannau ymarfer corff a saunas. Does neb yn cael defnyddio'r car yn ystod arhosiad yno ond gall pawb logi beic i fynd o un lle i'r llall. Tu fewn i'r Plaza mae na blanhigion a choed na ddisgwylir iddynt dyfu yn yr awyr agored yn y wlad hon. Lle bendigedig.

YSGOL GYMRAEG TONYREFAIL

Amser prysur iawn yw yr adeg hon o'r flwyddyn pan mae paratoadau mawr ar gyfer y Nadolig, hynny wrth gwrs ymhob ysgol yn ddi-wahan. Bydd Ffair y Nadolig ar ddydd Sadwrn 2il o Ragfyr pryd y disgwylir Siôn Corn i ymweld â'r ysgol. Cafwyd noson blasu a gwerthu siocled yn yr ysgol yn ddiweddar i godi elw ar gyfer yr ysgol.

Ar 11eg o Ragfyr bydd sioe Nadolig "Y Seren". Bydd holl blant yr ysgol yn cyflwyno hanes y geni gyda chaneuon gwreiddiol, dawnsio ac actio. Yng Nghlwb y Non Pol bydd hyn yn cymryd lle. Cafwyd Twmpath gyda Dawnswyr Pen y Fai er mwyn dathlu penblwydd yr ysgol yn ddeugain oed. Trefnwyd noson lwyddiannus dros ben gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol. Am gyfnod cynhelir bore coffi yn yr ysgol bob bore Mercher, ac mae croeso i bob un alw i mewn.

Cafwyd perfformiad gan Theatr Iolo Morgannwg i flwyddyn 2 ar ddydd Llun yr 20fed o Dachwedd. perfformiad yn rhad ac am ddim i'r plant.

Cafwyd ymweliad gan y Frigâd Dân a Weliffant. Cafodd Blwyddyn 5 sgwrs a fideo yn dangos peryglon tân a dysgu caneuon am ddiogelwch tân a chwrdd â Weliffant.

Mae deunaw o blant blwyddyn 5 yn mynd i Lancaiach Fawr ar Ragfyr 12fed fel rhan o waith y tymor ar y Tuduriaid a'r Stiwardiaid. Yn ogystal ag ymweld â'r plasdy byddant yn cael cyfle i wneud canhwyllau eu hunain.

Mae deunaw o ddisgyblion blwyddyn 6 yn paratoi ac yn edrych ymlaen i fynd i Langrannog ar Ionawr 4ydd - 6ed.

Mae Mrs Rhiannon Mahoney wedi ei dewis i swydd Cymorth Athrawon. Mae hi hefyd yn gyn-ddisgybl o'r ysgol. Mae wedi treulio rhai blynyddoedd yn Plymouth. Croeso mawr iddi.

Bu'r Parchedig Robin Samuel o Benybont ar Ogwr yn siarad â'r plant yn y gwasanaeth diolchgarwch. A bu'r Parchedig Eirian Rees o Efail Isaf yn siarad â phlant Blwyddyn 6

YSGOL GYMRAEG CASTELLAU

Martin Geraint yn dathlu'r Dengmlwyddiant

DATHLU 10 MLWYDDIANT
Cafwyd diwrnod i'r brenin yn yr Ysgol yn ddiweddar wrth i'r plant a'r athrawon ddathlu pen-blwydd yr ysgol yn 10 oed. Roedd awyrgylch parti mawr yn y neuadd amser cinio a daeth Martyn Geraint i ddiddanu'r plant yn y prynhawn. Erbyn diwedd y dydd roedd pawb - y plant a'r athrawon ar eu traed yn canu ac yn dawnsio, wedi ymgolli'n llwyr yn yr hwyl!

DRAMA NADOLIG
Cynhelir ein drama Nadolig "Dilyn y Seren" Dydd Mawrth Rhagfyr 12 am 2 p.m. a 6 p.m.

CYMDEITHAS RIENI AC ATHRAWON
Arwerthiant "Chocaholics" Tachwedd 27.
Ffair Nadolig, Rhagfyr 6ed, 6 p.m.
Disgo i'r plant, Rhagfyr 18.

PIGION NADOLIG S4C

Nadolig Bryn Terfel, Dydd Nadolig 9 o'r gloch.

Sinderela - opera bantomeim Syr Peter Maxwell Davies wedi ei gyfieithu a'i addasu gan Caryl Parry Jones, yn cael ei berfformio gan blant ardal Eifionydd yng Ngŵyl Cricieth. Dydd Mawrth, 26 Rhagfyr am 5.00 o'r gloch.

Bol a Chyfri Banc - Barddoniaeth gan Iwan Llwyd, Myrddin ap Dafydd ac Ifor Glyn am siopa ac arian. Nos Wener, Rhagfyr 22 am 9.15 pm.

Y Mapiwr - ffilm gan Endaf Emlyn am fachgen yn ceisio datrys dirgelion o'i gwmpas trwy gynllunio mapiau. Nos Fawrth, Rhagfyr 26ain am 9.00 pm.

Breuddwyd Roc a Rôl. Ynghanol Rocwyr a Rolwyr gwesty'r Shangri la mae yna un sy'n celu cyfrinach. Pwy laddodd canwr ifanc yn y 60'au? Nos Nadolig am 7.30 pm.

I GYMRY, I GYD-DDYN
Rhaglen ddogfen ar fywyd sylfaenydd yr Urdd, Syr Ifan ab Owen Edwards drwy recordiau sain a ffilmiau o'r cyfnod. Cynhyrchiad Cambrensis ar Nos Iau, Rhagfyr 28.

PARTION NADOLIG
Dillad newydd, balwns, tinsel a dawnsio, ac wrth gwrs - Siôn Corn. Rhwng holl bartion a disgos yr ysgol, yr Ysgol Sul, Clwb y Dwrlyn ac yn y blaen, mae'r plant yn mynd i fod yn brysur iawn.

Mae sôn fod Siôn Corn ar ddeiet eleni ar ôl bwyta gormod ym mharti Ysgol Sul y Tabernacl, Efail Isaf llynedd!

Nadolig Llawen a blwyddyn newydd dda i bawb yn y Creigiau a diolch am eich cyfraniadau i'r golofn hon.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Sheila Dafis

SYMUD TŶ
Dymuniadau gorau i Carol, Eric, Bethan, Gwenllian, Dyfrig a Delyth Willis yn eu cartref newydd yng Ngroesfaen.

CYLCH MEITHRIN
Mae'r Cylch yn brin iawn o blant eleni - dim ond 4 sy gyda nhw. Os ydych chi am eich plentyn i ddod neu os ydych chi'n adnabod rhywun sydd eisiau lle, cysylltwch â Sian Thomas 891003 cyn gynted ag sy'n bosib. Rhaid i'r plentyn fod dros 2½.

I blant dan 2½ mae croeso yn y Cylch Ti a Fi - ffoniwch Ffiona ar 892228 neu ddod i gwrdd â ni brynhawn dydd Mawrth 1.30 - 3.30 yn y pafiliwn.

YN Y COLEG
Lwc dda i Ewan Edwards, Parc y Bryn ar ei yrfa addysgol ym Mhrifysgol Aberystwyth a dymuniadau gorau i Mrs Mairona Edwards sydd wedi ymddeol o'i gwaith fel athrawes yn ysgol gynradd Pentyrch.

CYNLLUN CYMRAEG I'R TEULU
Mae'r cynllun hwn yn rhedeg yn ystod y 5 wythnos tra bod y plant yn chwarae yn y Cylch Ti a Fi. Mae 'na gyfres o lyfrau a thâp caneuon i'w defnyddio gyda'r plant bach. I rieni sydd ddim yn siarad Cymraeg mae o, ac mae 'na arweinydd sy'n helpu gyda'r llefariad a'r cyfieithiad er mwyn i'r rhieni fynd nôl a darllen y llyfrau i'r plant. Hyd yn hyn mae wedi bod yn llwyddiannus iawn a gobeithir cario ymlaen.

YSGOL GYNRADD CREIGIAU
Fel llynedd, nid cyflwyniad traddodiadol sydd gan y plant yn y gyngerdd Nadolig. "Rock around the Flock" yw teitl y cyflwyniad! Bydd y plant yn ymddangos mewn gwisg 50au/60au sy'n gydnaws â'r thema.

Mae'n siwr y bydd ambell riant yn rocio a rolio yn eu seddau wrth wylio hefyd.

CASGEN A CHAROL
Cynhelir noson o gerddoriaeth gan y plant ar Ragfyr 15ed. Cyfle i wrando ar y plant sy'n mynychu gwersi offerynnau cerdd yr ysgol.

MENTER Taf Elái

Tŷ Model, Llantrisant
01443 226386

BALCHDER BRO

Mae rhaid chwerthin pan dych chi'n meddwl amdano fe - Menter Taf-Elái ond fod Taf-Elái yn diflannu. Mae problemau daearyddol. Mae problemau ariannol. Mae problemau cydweithio neu ddiffyg cydweithio gyda sefydliadau eraill. Mae problemau cael gwirfoddolwyr i weithio'n ddi-dâl. Mae problemau cael staff i wneud gwaith hyd yn oed os oes arian gennym i'w talu. Mae problemau cael hyd i leoedd i gynnal gweithgareddau Cymraeg o fewn y canolfannau hamdden gwych sydd gennym. Mae'n anodd perswadio sefydliadau i ddarparu gweithgareddau Cymraeg ac mae'n anodd perswadio siaradwyr Cymraeg i 'ddefnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg. Mae'n anodd perswadio bas data'r Fenter i ddanfon llythyrau at y bobl cywir yn y cyfeiriadau cywir. Ac wedyn os ydym yn llwyddo yn hynny o beth rydym yn aml yn danfon haner dwsin at yr un cyfeiriad ! Rhai weithiau mae bywyd i gyd yn rhy gormod fel petai.

Nage nid diflastod bro ydy hyn i gyd wir - balchder bro Taf-Elái yw e er mod i'n byw yng Nghaerdydd fy hunan. Yn y rhifyn hwn o Tafod Elái mae copi o bamffledyn y Fenter "Mwy o gyfle i gymdeithasu yn Gymraeg". Mae rhaid chwerthin eto gwersi dosbarth nos Gwyddeleg, Cymorth Cyntaf a Hanes Lleol - am ffordd i dreulio noson tra bod "Cracer" ar y teledu. Faint o bobl sydd eisiau gwersi fel hyn? Yn waeth na hynny faint o bobl sydd eisiau dysgu "Cyfleithu ar y Pryd" hyd yn oed os yw'r cwrs yna yn rhad ac am ddim? Wedyn i bobl ddysgu cyfleithu yn ddigon da byddai galw iddynt gyfleithu i'r ysgol neu'r Coleg neu rywbeth neu gilydd.

Wel, gan taw fi sydd wrthi'n trefnu'r diawl pethau hyn rwy'n gobeithio y bydd tua deg ymhob grwp. Ydy hyn yn ormod i ofyn allan o'r 8,000 o siaradwyr Cymraeg sydd gennym a'r 38,000 o siaradwyr Cymraeg a allai deithio i'r gwersi hyn pe baen nhw am wneud ? Dwi ddim yn meddwl ein bod yn gofyn llawer mewn gwirionedd. Mae'r tiwtoriaid yn dda a'r prisiau yn rhesymol. Rwy'n siwr y bydd y rhai sydd yn gwneud y cyrsiau hyn yn cael amser wrth eu boddau.

Mae staff Morgannwg Ganol eisioes yn gofyn imi drefnu cyrsiau eraill at Fedi '96. Dwi wedi dweud wrthynt fod rhaid i mi ysgrifennu deg erthygl arall i Tafod Elâi cyn hynny a bod rhaid iddynt aros. Ond os oes eisiau cwrs dosbarth nos cyfrwng Cymraeg arnoch chi ym Medi'96 nawr yw'r amser i sôn amdano. Eich gwasanaeth chi ydy Adysg Gymunedol Cyngor Sir Morgannwg Ganol/Rhondda Cynon Taf ac y mae modd cydweithio er mwyn sicrhau gwasanaeth Cymraeg.

Dwi'n falch o hynny. Dwi'n falch bod Mr Paul Brown a Mr Graham Lewis yn cydweithio. Dwi'n gwybod bod gobaith cael gwersi cyfrwng Cymraeg yn y Ddraenen Wen hefyd. Mae Eleri Jenkins, gyda chymorth ariannol Teledwyr Annibynnol Cymru, newydd agor clwb ieuenctid yn y fan honno i Gymry a dysgwyr. Dwi'n falch ein bod ni wedi helpu sicrhau hynny. Dwi'n falch bod gennym 14eg o glybiau wythnosol Cymraeg. Dwi'n falch ein bod yn ymdrechu i gynnig pethau i oedolion hefyd. Dwi'n falch o Daf-Elái.

Steffan Webb

MWY O GYFLE I GYMDEITHASU YN GYMRAEG

GWERSI GWYDDELEG - Cwrs i ddechreuwyr gael dysgu 'ychydig am iaith geltaidd arall, rhaid ichi wneud hyn os ydych am fynd i lwerddon neu hyd yn oed mynd i weld gêm rygbi yno!
Canolfan Addysg Gymunedol y Beddau, Ysgol Bryncelynnog, Y Beddau.
7 - 8.30 pm Bob nos Iau. Dechrau 11.1.96. 10 wythnos
Tiwtor: Richard Lewis, Coleg Caerdydd
Pris: £12.30. Manylion pellach:- Paul Brown 01443 204551

GWERSI CYMORTH CYNTAF
Cwrs Ymarferol Dwyieithog ydy hwn wedi'i drefnu mewn cydweithrediad â'r Groes Goch. Mae'n addas at bawb sydd yn gofalu am bobl eraill mewn unrhyw ffordd o gwbl - yn y gwaith - Meithrin/Ysgol/Coleg/Ffatri/ Siop/Swyddfa - wrth ofalu am blant neu henoed yn y tŷ neu wrth wneud unrhyw weithgareddau. Bydd rhan fwyaf o'r cwrs mewn Cymraeg syml gan fod angen i bawb ddeall yn iawn gyda ychydig o'r ymarferiadau yn cael eu cyflwyno yn Saesneg.
Canolfan Addysg Gymunedol y Beddau, Ysgol Bryncelynnog, Y Beddau.
7 - 8.30 pm Bob nos Iau. Dechrau 11.1.96. 10 wythnos
Tiwtor: Vera Evans, Y Groes Goch
Pris: £12.30. Manylion pellach:- Paul Brown 01443 204551

GWERSI HANES LLEOL
Cwrs trafod hanes Tonyrefail a'r Cylch. Mae'r tiwtor ar fin cyhoeddi llyfr am yr ardal a dyma siawns i drafod hanes ar lefel perthnasol, lle mae'n bosib y byddwch yn nabod y bobl a'r lleoliadau y mae'n sôn amdanynt. Gellwch hyd yn oed gyfrannu at y drafodaethau eich hunain. Croeso i ddysgwyr y Gymraeg.
Canolfan Addysg Gymunedol Tonyrefail
Ysgol Uwchradd Tonyrefail
7 - 8.30 pm Bob nos Lun. Dechrau 8.1.96. 10 wythnos
Tiwtor: Walter Jones, Sain Ffagan.
Pris: £12.30. Manylion pellach:- Graham Lewis 01443 670647.

FFURFLEN - GWERSI GWYDDELEG CYMORTH CYNTAF - HANES LLEOL

Er mwyn bwcio lle ar y cyrsiau uchod danfonwch y ffurflen hon a siec am £12.30 y cwrs at Fenter Taf Elái, Y Tŷ Model, Llantrisant. CF72 8EB.

ENW _____

CYFEIRIAD _____

_____

Hoffwn i ddilyn y cwrs _____

CWRS CYFIEITHU AR Y PRYD YN RHAD AC AM DDIM!

Mae gan Fenter Taf Elái offer cyfieithu ar y pryd sydd ar gael i'w fenthyg yn rhad ac am ddim gan ysgolion a sefydliadau elusennol. Nawr y mae modd inni gynnig cwrs yn rhad ac am ddim er mwyn hyfforddi pobl - heb unrhyw brofiad - i gyfieithu.

Fyddech chi'n hoffi dysgu sut mae cyfieithu ar y pryd? Efallai wedyn y byddwch yn gallu cyfieithu i ynrhyw gymdeithas rydych chi'n perthyn iddi!

Efallai yr hoffech wneud cwrs cyfieithu ar y pryd er mwyn cael hyder i wirfoddoli i ddarparu gwasanaeth neu efallai yr hoffech chi gyfle i wneud gwaith cyfieithu achos mae gwir angen cyfieithwyr arnom ac y mae nifer o gwmniau cyfieithu yn yr ardal.

Labordy Iaith, Prifysgol Morgannwg, Trefforest.
7 - 9 pm Bob nos Lun. Dechrau 8.1.96. 6 wythnos
Tiwtor:- Elin Tudur, Cwmni Cyfieithu Seren.
Pris: YN RHAD AC AM DDIM.

ENW _____

CYFEIRIAD _____

_____

CÔD POST _____

Hoffwn i ddysgu Cyfieithu Ar y Pryd er mwyn:

_____

_____

Taswn i'n dysgu Cyfieithu ar y Pryd byddwn yn gallu defnyddio offer cyfieithu Menter Taf Elái er mwyn cyfieithu i:

_____

_____

LLOFNOD_____ DYDDIAD _____

Dychweler y ffurflen hon at:
Swyddfa Menter Taf Elái, Y Ty Model, Llantrisant. CF72 8EB.

CYW HAUL

Cyfres wedi ei gosod mewn pentref yng nghefn gwlad Meirionnydd ble mae diweithdra yn norm a pheint yn y prynhawn yn rhywbeth i awchu amdano yw Cyw Haul. mae ei chymeriadau'n lliwgar a'i hiwmor naturiol yn byrlymu o'u genau a'u gweithredoedd.

Hogiau cyffredin Cymraeg ydi prif gymeriadau Cyw Haul, gyda'r llanc Bleddyn (Arwel Gruffydd) yn ganolbwynt y digwyddiadau. Mae'r gyfres yn agor gyda Bleddyn a'i ffrindiau Milc Shêc a Banjo'n paratoi i fynd i'r llys, lle mae'n nhw'n wynebu cyhuddiad o "crumunal damej i ffenast gweithdy Joci Bach" a Bleddyn yn ymarfer ei lith i'r ynadon drwy adrodd "Dros Gymru'n gwlad, O! dad, dyrchafwn gri, y wigwam wen ..."

Yn ystod y gyfres cawn ddilyn hynt a helynt Bleddyn wrth iddo ddechrau gweithio fel peintiwr gyda Sam Owen a'i feibion Raymond, Desmond ac Osmond. Cawn weld sut hwyl gaiff o wrth geisio canlyn y ferch ysgol Enfys Parri, wrth ddysgu gyrru car ac wrth ddarllen y nofel O Law i Law ar gyfer gornest holi ac ateb sy'n cael ei threfnu gan ei weinidog, Mr Irfon Hughes, B.A. B.D.

Wrth chwilio am leoliadau ffilmio ar gyfer y gyfres aeth aelodau o griw cynhyrchu Teledu Elidir i bentref Llan Ffestiniog a chanfod fod y lle'n ddelfrydol fel y pentref sy'n ganolbwynt i'r gyfres. Er bod y gyfres deledu wedi ei seilio ar y gyfrol Cyw Haul, mae ynddi stracon newydd hefyd, wedi eu 'sgrifennu gan Twm Miall. Mae Twm ynta'n frodor o Feirionnydd; wedi ei fagu yn Nhrawsfynydd, mae erbyn hyn wedi ei sefydlu ei hun fel awdur poblogaidd ar aml-gyfrwng sy'n dod o hyd i'r doniol mewn pobl a sefyllfaoedd digon cyffredin.

Mae cyfres Cyw Haul yn cychwyn ar Nos Iau, 8fed Rhagfyr.

Cerdd Tafod *Y GORAU O BONTGARREG*

Yn ddiweddar, clywyd y ddau dîm talwrn lleol - Y Dwrlyn a'r Garth - ar raglen Talwrn y Beirdd. Recordiwyd y ddwy raglen draw ym Mhontgarreg ar arfordir Ceredigion, sef cartref y Prifardd T. Llew Jones. Mewn gornestau ar wahan, bu'r ddau dîm yn fuddugol, a'r Dwrlyn yn ennill marciau uchel yn eu gornest hwy. Taith lwyddiannus i'r gorllewin felly! Rhag ofn na chlywsoch y rhaglenni, dyma flas o'r cynnyrch.

O roi Wil wrth yr olwyn
Daw rhyw raid i bigo'i drwyn.
Mallt Anderson. Y Garth.

"Rheol"

Rhodio'n ol ei hordinhad, - a dysgu
Gwneud y dasg heb wingad;
Tawelai i'r ataliad
A fo yn neddf bys fy nhad.
Havard Gregory, Y Garth.

Cywydd: Bro

Henwr ar ben ei hunan
Yn ŵr llesg ar gwr y llan,
A'i fryd ar ddychwel i'w fro
Yn oriel y goreuro;
Hyd olion creithiau dulas
Ei groen sy'n dudalen gras
O hanes dyddiau cyni
Dygyfor ein hesgor ni;
Ardal yn medi alaeth,
Dirdynnol ei gwaddol gaeth
Yn y cur, wrth boeri cen
Y llwch o blyg y llechen;
Yntau'n fud a'i wynt yn fyr
A gais, mewn atgof, gysur;
Yno mae'n wylo eilwaith
A gwel yng nghysgod y gwaith
Mai brau ei chwlwm yw bro
Heddiw, sy'n estron iddo.
Emlyn Davies.

Un noson ar lan afon Teifi
Daeth criw oedd a'u bryd ar farddoni
Ond aethon nhw adre'
Heb gerddi o gwbwl,
Eu problem, yn amlwg, oedd odli!
Huw Llywelyn Davies. Y Dwrlyn.

Pobol y Cyfryngau

Prae ydynt;
Rhodiant ar drugaredd
Y sawl a'u gwyliant;
Am hynny,
Mawl fo iddynt
A'u plant a'u dilynant.
Illtyd Lewis. Y Garth.

Erys cof wrth ddrws y cefn
Er dadrith gwerthu'r dodrefn.
Rhodri Gwynn Jones. Y Dwrlyn.

CÂN: Angladd Od

Rhaid 'ni gyd fynd rhywdro, er bod hi mor ddrud
a gan fod costau claddu'n codi o hyd
mi wnes benderfyniad mod i'n ffansi "crematorium"
a thalu 'mlaen llaw - i osgoi "inflation".
Es i'r "Yellow Pages" a chael mewn munudau
fod archfarchnad angladdau 'di agor yn Beddau.
Wel, 'tawn i'n marw! Dyna'i chi le
i brynu popeth o dan y ne'.
'Doedd y prisiau'n fanno ddim yn ddrud ychwaith
ac mae nhw'n cynnig "Air Miles" ar eich olaf daith.
Ces emyn a blodau heb fawr o gost
a rhoi'r manylion perthnasol yn y Daily Post.
Ond y mistec wnes i oedd cael "home delivery" -
mi aeth y notis i'r papur a'i gymryd o ddifri!
Doedd dim amdani, rhag gwastraffu f'arian,
ond mynd mewn "disgise" i f'angladd fy hunan.
Roedd y canu'n ddi-fywyd a'r gynulleidfa'n dena'
a'r deyrnged cyn oered a thaswn i'm yna!

Os mai fel hyn y bydd hi, pan ddaw'r alwad -
dwi'n gwrthod mynd! Dyffeiai'r diawlad!
Ifan Roberts. Y Dwrlyn.



- Geiriau cyfystyr
- Dyfyniadau eglurhaol
- Priod-ddulliau
- Lleoliad yr acen
- Termau arbenigol a thechnegol
- Amrywiadau rhanbarthol
- Yr iaith lenyddol a'r iaith lafar
- Enwau lleoedd
- Enwau personol

Pris arferol £40.00

Ond i gwsmeriaid personol yn unig

£30.00

Lleolir HMSO ORIEL yn Heol Ty'r Brodyr, Caerdydd, nepell o'r Theatr Newydd.

Dewch i ymweld a ni!

Ar agor chwech diwrnod yr wythnos 9.00 - 5.30.

Ar agor yn hwyr ar gyfer siopa Nadolig
Dydd Iau Rhagfyr 7fed 1995
Dydd Iau Rhagfyr 14eg 1995
Dydd Iau Rhagfyr 21ain 1995

Ar gau Rhagfyr 25 - 27ain 1995 a Ionawr 1af 1996

HMSO ORIEL